

RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL: 65/2016

DYDDIAD CYHOEDDI: 05/10/2016

Deall Economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau yng Nghymru

Crynodeb Gweithredol

1. Cyflwyniad

- 1.1 Penododd Llywodraeth Cymru Public and Corporate Economic Consultants Limited (PACEC) ym mis Hydref 2015 i wneud 'astudiaeth o Economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau'.
- 1.2 Fel yr amlinellwyd yn y fanyleb, nod y prosiect ymchwil hwn oedd cynnal asesiad cynhwysfawr, annibynnol o economeg y diwydiant cartrefi mewn parciau yng Nghymru, gan gynnwys ystyried a yw Cyfradd Comisiwn yn dal yn briodol, ac, os felly, ar ba lefel y dylid gosod y gyfradd. Yn arbennig, byddai'n cynnwys dadansoddiad o incwm, gwariant ac elw perchnogion parciau, ac effaith amrywiadau mewn lefel taliadau trwy gyfradd y comisiwn a ffioedd lleiniau.

2. Methodoleg

- 2.1 Roedd cydrannau allweddol methodoleg yr ymchwil yn cynnwys:
 - Ymchwil desg, a oedd yn cynnwys nodi, coladu ac adolygu gwybodaeth gyhoeddedig berthnasol a oedd yn cyflwyno dealltwriaeth o'r farchnad a chyd-destun polisi lle cynhaliwyd yr ymchwil.
 - Cyfweiliadau gyda chynrychiolwyr wyth sefydliad rhanddeiliaid allweddol, sef:
 - Cymdeithas Gwyliau a Chartrefi mewn Parciau Prydeinig (BH&HPA)
 - Y Cyngor Carafanau Cenedlaethol
 - Cymdeithas Genedlaethol Preswylwyr Cartrefi mewn Parciau
 - Gwasanaeth Ymgynghorol Cartrefi mewn Parciau Annibynnol
 - Cyngor Sir Gâr
 - Cyngor Bro Morgannwg
 - Cyngor Powys
 - Cyngor Torfaen.
 - Ymgynghori â grŵp o breswylwyr cartrefi mewn parciau sydd wedi bod yn ymgychu am ddileu'r Gyfradd Comisiwn 10 y cant.
 - Gweithredu arolwg gweithredwyr parciau ar-lein. Lanswyd yr arolwg ar 7fed Ionawr 2016 a daeth i ben ar 7fed Mawrth 2016. Yn ystod y cyfnod hwn o ddau fis, ymatebodd cyfanswm o 32 o weithredwyr parciau i'r arolwg. Roedd hyn yn golygu cyfradd ymateb o 52 y cant. Cafwyd

ymatebion gan o leiaf un parc mewn 14 allan o'r 19 o ardaloedd Awdurdod Lleol sydd â pharciau preswyl.

- Gweinyddu arolwg trwy'r post preswylwyr cartrefi mewn parciau. Postiwyd cyfanswm o 2,517 o arolygon i breswylwyr mewn 81 o safleoedd cartrefi mewn parciau a derbyniwyd ymatebion gan 587 o drigolion o 65 o safleoedd.
- Ymweliadau â 18 o safleoedd cartrefi mewn parciau ledled Cymru. Roedd pob ymweliad â safle'n cynnwys cyfweiliad â gweithredwr y parc a, lle bo'n bosibl, grŵp ffocws gyda phreswylwyr y parc. Mynychodd cyfanswm o 122 o breswylwyr drafodaethau grŵp mewn 14 o safleoedd.
- Roedd 65 o'r 88 o barciau i gyd (74 y cant) wedi eu cynnwys gan yr arolwg a / neu ymweliadau â safle.

2.2 Rhoddwyd y cyfle i'r rhai a gymerodd rhan yn yr ymchwil gymryd rhan yn naill ai'r Gymraeg neu'r Saesneg a darparwyd pob offeryn ymchwil yn ddwyieithog.

3. Canfyddiadau Allweddol

Proffil Sectorau a Gweithredwyr

- 3.1 Yn seiliedig ar waith maes PACEC, ymddengys bod 88 o barciau yn y sector cartrefi mewn parciau preswyl yng Nghymru. Lleolir dros 50 y cant o barciau yn y pum awdurdod lleol canlynol: Powys, Sir Benfro, Sir Gâr, Ceredigion a Sir Fflint.
- 3.2 Mae data 2012 Llywodraeth Cymru a data arolwg yr astudiaeth yn amlygu bod gan y sector lawer iawn o barciau 'micro' neu 'fach', gyda chwe safle'n unig yn cael eu dosbarthu fel bod yn 'fawr' neu'n 'fawr iawn'. Mae'r data hefyd yn awgrymu bod safleoedd cartrefi mewn parciau preswyl yng Nghymru (ar gyfartaledd) yn llai na'r rhai hynny yn Lloegr a'r Alban.
- 3.3 O'r 32 o weithredwyr parc a gwblhaodd arolwg, cyflwynodd 22 (69 y cant) wybodaeth refeniw a chost. Felly, dylid defnyddio elfen o ofal wrth ddehongli'r canlyniadau hyn, o ystyried y nifer cyfyngedig o ymatebion i'r cwestiynau hyn. Mae canfyddiadau arolwg y gweithredwyr yn awgrymu mai'r ffynonellau incwm a enwir yn fwyaf aml gan weithredwyr parciau oedd ffioedd lleiniau, comisiynau ar werthiannau preifat, adlwytho cyfleustodau a gwerthiannau cartrefi mewn parciau.
- 3.4 Mae'r canfyddiadau hefyd yn dangos ar gyfartaledd, bod incwm o gomisiwn ar werthiannau'n cyfrif am wyth – 10 y cant cyfanswm yr incwm yn 2013/14 a 2014/15. Mae hyn yn gyson yn fras ag astudiaeth 2002 Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (ODPM) a gynhaliwyd ledled Lloegr a Chymru a nododd bod incwm o gomisiwn yn cynrychioli tua saith y cant o gyfanswm incwm. Y ffynonellau gwariant mwyaf cyffredin y soniwyd amdanynt ar gyfer gweithredwyr parc yw: cynnal a chadw ac atgyweiriadau cyffredinol, cyflogaeth, trwyddedu a phremiynau yswiriant.
- 3.5 Ysgwyddod canran arwyddocaol o barciau 36 y cant (n=8) ddiffygion yn 2013/14 a 2014/15. Cofnododd deunaw y cant o barciau arian dros ben o lai na 30 y cant o'u hincwm tra cyflwynodd y 45 y cant oedd yn weddill ddata a nododd arian dros ben o fwy na 30 y cant o'u hincwm. Yr arian dros ben ar gyfartaledd a wnaethpwyd gan barciau oedd £40,400.
- 3.6 Mae trafodaethau â chynrychiolwyr BH&HPA wedi cadarnhau'r uchod fel bod yn adlewyrchiad teg o gyflwr ariannol y sector. Yn anecdotaidd, nododd cynrychiolwyr o BH&HPA hefyd fod nifer arwyddocaol o'u haelodau'n gweithredu gyda'u banciau ar sail 'mesurau arbennig'.
- 3.7 Nododd ymchwil 2002 ODPM, a oedd yn cwmpasu cartrefi mewn parciau yn Lloegr yn ogystal â Chymru, ystod Incwm Net ar gyfartaledd o £30,000 - £50,000 y parc (yn cyfateb i tua £45,000 - £76,000 ar brisiau 2016, yn seiliedig ar gyfraddau chwyddiant hanesyddol) ledled meintiau pob parc. Yr arian dros ben ar gyfartaledd a nodir gan yr astudiaeth hon yw £40,400, sy'n cyfateb i ben is yr ystod a nodwyd gan ymchwil yr ODPM. Nododd ymchwil yr ODPM hefyd ar gyfartaledd, yr

ysgwyddodd parciau llai Golled Net o £5,000. Mae incwm net is/proffil gwneud colled parciau llai a nodwyd yn yr ymchwil 2015/16 hwn yn gyson â chanfyddiadau ymchwil blaenorol.

- 3.8 Er bod Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 wedi cryfhau pŵer bargeinio cymharol preswylwyr ac wedi egluro'r broses ynghylch penderfynu ffioedd lleiniau mae hefyd wedi golygu gweinyddiaeth a gwariant cynyddol i weithredwyr parciau. Mae arolwg y gweithredwyr a'r cyfweiliadau wedi nodi bod y cyfyngiadau mewn cynnydd ffioedd lleiniau wedi effeithio'n arbennig o arwyddocaol ar weithredwyr, gan fod cwmpas bach iawn i wneud iawn am y costau ychwanegol a geir ar hyn o bryd. Mae gostyngiad yr adroddwyd amdano mewn trosiant o ailwerthu eiddo newydd hefyd yn effeithio'n negyddol ar gynhyrchu incwm a gwerth asedau, ac mae cyflwyno'r drwydded bum mlynedd wedi lleihau dengarwch parciau yn ystod gwerthiant.
- 3.9 Mae'r uchod yn amlygu nad yw'r mwyafrif helaeth o fusnesau yn y diwydiant cartrefi mewn parciau yng Nghymru'n gwneud lefelau uchel o elw. Mewn gwirionedd, ymddengys bod canran sylweddol o'r sector yn masnachu yn agos at neu o dan fantoli'r cyfrifon. Yn amlwg mae gan hyn oblygiadau ar gyfer unrhyw newid i raddfa'r comisiwn, gan y bydd gostyngiad mewn maes allweddol o incwm, heb gynnydd cyfatebol mewn un arall, yn peryglu ymarferoldeb a chynaliadwyedd canran arwyddocaol o fusnesau o fewn y sector. Gallai hyn olygu cau/gwerthu parciau, sy'n debygol o fod yn anfanteisiol i weithredwyr yn ogystal a phreswylwyr.

Proffil Preswylwyr

- 3.10 Mae'r ymchwil hwn yn nodi bod preswylwyr cartrefi mewn parciau yn dueddol o fod yn 55 oed neu'n hŷn. Nododd arolwg y preswylwyr oedran ymatebwyr ar gyfartaledd o 71.
- 3.11 Nododd tri deg saith y cant o ymatebwyr fod ganddynt incwm rhwng £1,000 a £2,000 y mis, dim ond saith y cant sydd ag incwm yn fwy na hyn ac mae gan 16 y cant incwm llai na £600 y mis. Adroddodd ychydig dros un chwarter (26 y cant) yr ymatebwyr nad oes ganddynt unrhyw gynilion, tra bod 52 y cant y rhai hynny sydd â chynilion ganddynt yn adrodd naill ai na ychwanegir at eu cynilion neu maent yn lleihau. Mewn perthynas â threuliau misol, mae preswylwyr yn talu rhwng £333 a £352 y mis ar gyfartaledd am gyfleustodau / gwasanaethau yn ychwanegol at eu ffi llain (£148 y mis ar gyfartaledd). Mae'r canfyddiadau hyn yn amlygu bod nifer sylweddol o breswylwyr cartrefi mewn parciau mewn sefyllfa ariannol fregus, gydag ychydig iawn o allu i ennill cynnydd arwyddocaol mewn costau byw.
- 3.12 O'r rhai hynny a ymatebodd i'r arolwg, roedd 37 y cant wedi byw yn eu cartref presennol am dros 11 mlynedd, gydag wyth y cant wedi byw yno am fyw nag 20 mlynedd. Dywedodd 65 y cant nad ydynt yn bwriadu symud yn ystod eu hoes, tra bod wyth y cant pellach wedi dweud eu bod yn bwriadu aros am 10 mlynedd neu hwy.
- 3.13 Mae canrannau uchel o ymatebwyr yr arolwg yn cael mynediad i drydan, prif gyflenwad dŵr a charthffosiaeth yn uniongyrchol gan weithredwr y parc. Pan ofynnwyd iddynt amcangyfrif eu gwariant misol neu flynyddol, nwy (prif gyflenwad yn ogystal â nwy potel) oedd y maes uchaf ei gost.
- 3.14 O ystyried sefyllfa ariannol gaeth y rhan fwyaf o breswylwyr cartrefi mewn parciau a bwriad y rhan fwyaf o ymatebwyr i aros yn eu cartref yn y parc am y dyfodol rhagweladwy, mae'n debygol na fydd y preswylwyr hyn yn awyddus iawn i dalu ffioedd llain uwch yn barhaus yn lle gostwng/ diddymu cyfradd comisiwn sydd mewn grym adeg gwerthu eu cartref.

Bodddhad Preswylwyr

- 3.15 Mae adborth arolygon a chyfweiliadau'n amlygu bod tri chwarter y preswylwyr yn fodlon â lleoliad a darpariaethau'r parc. Fodd bynnag, adroddodd traean y preswylwyr nad oeddent yn fodlon mewn perthynas â chynnal a chadw parciau ac ymddygiad gweithredwyr parciau.

- 3.16 Mae adborth gan awdurdodau lleol a sefydliadau cynrychiolwyr preswylwyr yn amlygu bod meysydd diffyg boddhad yn dueddol o godi mewn perthynas â:
- chynnal a chadw'r safle'n wael
 - defnyddio'r cytundeb preswylwyr fel modd o reoli galw/ mynediad i'r Parc
 - peth diffyg ymwybyddiaeth o'r comisiwn 10 y cant gan breswylwyr.
- 3.17 Mae'r uchod yn awgrymu bod angen gwaith pellach i nodi a mynd i'r afael ag arfer gwael mewn safleoedd cartrefi mewn parciau ac i sicrhau y diogelir hawliau trigolion.

Ymwybyddiaeth Preswylwyr o Oblygiadau Cytundebol

- 3.18 Mae arolwg y preswylwyr a thrafodaeth â phreswylwyr yn amlygu tra bod y rhan fwyaf o breswylwyr yn ymwybodol o gyfradd y comisiwn 10 y cant yn ogystal â'r posibilrwydd yr adolygir ac y cynyddir ffioedd llain yn flynyddol, mae lleiafrif arwyddocaol yn anymwybodol neu'n aneglur am y materion hyn. Mae angen gwella ymwybyddiaeth fwy o'r materion hyn ymhlith poblogaeth y preswylwyr presennol a sicrhau bod y pwyntiau hyn yn cael eu gwneud yn eglur iawn i breswylwyr potensial yn y dyfodol.

Arfarnu Opsiynau Comisiwn

- 3.19 Amlinellir opsiynau ar gyfer diwygio'r trafodiadau economaidd rhwng preswylwyr a gweithredwyr isod. Aseswyd yr opsiynau hyn yn adroddiad 2002 yr ODPM ac maent yn aros yn berthnasol i'w hystyried yn yr adroddiad hwn:
- Diddymu cyfradd y comisiwn
 - Gostyngiad yng nghyfradd y comisiwn i 2.5 y cant
 - Gostyngiad yng nghyfradd y comisiwn i bump y cant
 - Gostyngiad yng nghyfradd y comisiwn i 7.5 y cant
 - Gohirio cyfradd y comisiwn tan y pwynt gwerthu ar raddfa symudol.
- 3.20 I gyfrifo effaith gostwng neu ddiddymu cyfradd y comisiwn, dadansoddwyd gwybodaeth ariannol a roddwyd gan weithredwyr parciau fel rhan o'r arolwg gweithredwyr. Cyflwynodd cyfanswm o 22 o weithredwyr parciau ddata ariannol. Cyfrifwyd refeniw ar gyfartaledd o ffioedd lleiniau a chomisiynau y llain yn ôl maint y parc a defnyddiwyd y ffigyrau hyn i gyfrifo'r gostyngiad mewn refeniw comisiwn. Dyma'r un fethodoleg ag a ddefnyddiwyd yn adroddiad 2002. Gan mai dau weithredwr yn unig a gyflwynodd ddata o barciau micro a'r nifer cyfyngedig o leiniau yn y parciau hynny, dadansoddwyd y data hyn ochr yn ochr â data'r parciau bach.
- 3.21 Fel yr amlinellwyd uchod, mae sawl opsiwn ar gyfer gostwng graddfa'r comisiwn. Gallai'r opsiynau hyn o bosibl fod o fudd i breswylwyr presennol, gan y byddent yn derbyn pris uwch pan fyddent yn gwerthu eu cartrefi. Fodd bynnag, o ystyried lefel gyfyngedig yr elw a brofwyd o fewn y sector catrefi mewn parciau, pe byddai graddfa'r comisiwn yn cael ei gostwng, mae gweithredwyr yn debygol o ofyn am gynnydd mewn ffynhonnell arall o incwm i wneud iawn am y golled. Y ffynhonnell fwyaf tebygol o gynnydd yw ffioedd lleiniau¹.

Diddymu Cyfradd y Comisiwn

^[1] Ar hyn o bryd, gellir cynyddu ffioedd lleiniau'n unig yn unol â'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr Fodd bynnag, gallai darpariaethau yn Neddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 ganiatáu ailedrych ar hyn ar sail newidiadau i gostau gweithredwyr o ganlyniad i ddeddfwriaeth a ddaeth i rym (cyf http://www.legislation.gov.uk/anaw/2013/6/pdfs/anaw_20130006_en.pdf Tudalen 50, Paragraff 18.1(d) para 1). Fel arall, efallai bydd angen diwygiadau yn y dyfodol i'r Ddeddf.

- 3.22 Byddai diddymu cyfradd y comisiwn heb wneud iawn am y golled trwy gynydd mewn ffynhonnell arall o incwm yn golygu colled o tua:
- Un ar bymtheg y cant o refeniw mewn parciau bach.
 - Deg y cant o refeniw mewn parciau canolig.
 - Pymtheg y cant o refeniw mewn parciau mawr.
- 3.23 Er mwyn gwneud iawn am golledion pe byddai cyfradd y comisiwn yn cael ei ddiddymu, byddai angen i ffioedd lleiniau gynyddu ar gyfartaledd o 14 y cant, h.y. £13 - £22 y mis (£156 - £264 y flwyddyn).
- 3.24 Byddai diddymu ffi'r comisiwn yn galluogi preswlydd i dderbyn pris uwch am y cartref yn y parc, fodd bynnag, pe byddai ei ddiddymu'n golygu ffioedd lleiniau uwch, a delir yn rheolaidd ar sail barhaus, mae'n debygol o effeithio'n negyddol ar grŵp o bobl y mae ganddynt yn nodweddiadol adnoddau ariannol cyfyngedig ac sy'n dymuno aros yn eu cartref yn y parc yn y tymor canolig i hir (mae 73 y cant o breswylwyr yn bwriadu byw yn eu cartref yn y parc am o leiaf 10 mlynedd).

Gostwng Cyfradd y Comisiwn

- 3.25 Byddai gostwng cyfradd y comisiwn i 2.5 y cant yn arwain at gynydd mewn ffioedd lleiniau o 14 y cant mewn parciau bach, naw y cant mewn parciau canolig a 13 y cant mewn parciau mawr
- 3.26 O safbwynt preswlydd, byddai effaith debyg gan ostyngiad ffi'r comisiwn â'i ddiddymu'n llwyr, gan y gallai gostyngiad yng nghyfradd y comisiwn hefyd olygu ffioedd lleiniau uwch.

Profwyd effeithiau gostwng cyfradd y comisiwn i bump y cant a 7.5 y cant hefyd. Gellir gweld y cynnydd o ganlyniad mewn ffioedd lleiniau ar draws parciau o wahanol feintiau yn y Tabl isod.

Tabl 1: Cynydd mewn Ffioedd Lleiniau ar Lefelau Comisiwn Gwahanol

Maint y Parc	10 y cant	7.5 y cant	5 y cant	2.5 y cant	0 y cant
Bach	£1,444	£1,511	£1,578	£1,645	£1,712
Canolig	£1,407	£1,448	£1,488	£1,529	£1,569
Mawr	£1,419	£1,480	£1,542	£1,603	£1,664
Cyfartalog	£1,423	£1,480	£1,536	£1,592	£1,648

Sylfaenol: 22

Graddfa Symudol

- 3.27 Byddai gan "raddfa symudol" a gyflwynid, yn daladwy gan y preswlydd wrth werthu cartref mewn parc, effeithiau amrywiol ar breswylwyr, gan ddibynnu ar ba mor hir roeddent wedi bod yn berchen ar eu cartref mewn parc. Byddai hyn yn newid y ffordd y gwneir cyfrifiadau ffi lleiniau diwygiedig. Mewn enghraifft syml, gallai ffioedd comisiwn gychwyn ar un y cant a chynyddu ar raddfa flynyddol o un y cant, i fyny at 10 mlynedd, gan olygu uchafswm graddfa a fyddai'n daladwy o 10 y cant (y raddfa bresennol).
- 3.28 Byddai hyn yn ffordd decach i'r preswylwyr hynny a fyddai'n dymuno gwerthu eu cartrefi ar ôl cyfnod byr o amser. Gall hefyd annog pobl i roi cynnig ar y ffordd o fyw mewn cartrefi mewn parc, gan wybod y byddent yn gallu ailwerthu eu cartrefi'n gymharol gost effeithiol.
- 3.29 Fel bod y dull hwn yn gynaliadwy i weithredwyr parc, byddai angen ailgyfrifo ffioedd lleiniau'n flynyddol, a fyddai'n cynyddu'r baich gweinyddol ar weithredwyr. Hefyd, byddai'r opsiwn hwn ar gael yn unig i breswylwyr newydd gan ei fod yn cynrychioli ffurf o daliad gohriedig ac o dan y system gyfredol, mae preswylwyr presennol wedi talu eu ffi comisiwn yn barod wrth brynu eu cartref mewn parc.

- 3.30 Fodd bynnag, o ystyried y nododd y rhan fwyaf o ymatebwyr yr arolwg eu bod yn bwriadu aros yn eu cartref mewn parc am yn hwy na 10 mlynedd, neu am weddill eu hoes, mae llawer o breswylwyr yn annhebygol o gefnogi cynnydd mewn ffioedd lleiniau.

4. Argymhellion

4.1 Yn seiliedig ar yr uchod, mae argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn:

- **Graddfa Comisiwn** – er bod graddfa'r comisiwn yn ffynhonnell barhaus o anfonlonrwydd ymhlith preswylwyr, mae canlyniadau'r ymchwiliad hwn yn awgrymu bod gan ei diddymiad/gostyngiad y potensial i gael effaith negyddol ar ymarferoldeb a chynaliadwyedd sawl gweithredwr cartrefi mewn parciau yng Nghymru. Pe byddai diddymu/ gostwng graddfa'r comisiwn yn gwneud iawn am gynnydd mewn ffioedd lleiniau, gallai hyn gael effaith negyddol ar breswylwyr sydd ag adnoddau ariannol cyfyngedig iawn ac sy'n dymuno aros yn eu cartrefi mewn parciau yn y dyfodol rhagweladwy. O ganlyniad, rydym yn argymhell bod cyfradd y comisiwn yn aros heb ei newid ar gyfer preswylwyr presennol, ond yr ystyrir rhoi opsiwn i breswylwyr newydd o dalu ffioedd lleiniau uwch yn lle gostyngiad cymesur yng ngraddfa'r comisiwn a roddir ar werthiannau yn y dyfodol. Er ei bod yn bosibl y bydd angen newid deddfwriaethol ar y dull hwn a'i fod yn debygol o ychwanegu at gymhlethdod gweinyddiaeth a chynllunio busnes gweithredwyr, gallai (pe byddai'n cael ei fabwysiadu gan niferoedd digonol) gyfrannu at lif arian ac ymarferoldeb gwell y gweithredwyr, tra'n rhoi dewis mwy i breswylwyr a'r potensial i gaffael canran uwch o o elw gwerthiant eu cartref mewn parc.
- **Ymwybyddiaeth preswylwyr o oblygiadau cytundebol** - Mae angen gwella ymwybyddiaeth fwy o oblygiadau cytundebol ymhlith y preswylwyr presennol a sicrhau bod y pwyntiau hyn yn cael eu gwneud yn eglur iawn i breswylwyr yn y dyfodol. Rydym yn argymhell bod y rhanddeiliad yn gweithio gyda'i gilydd i sicrhau bod cyfathrebu rheolaidd ac eglur ynghylch y materion hyn yn cael eu cyflwyno i'r preswylwyr.
- **Adnabod a Mynd i'r Afael ag Arfer Gwael** – mae lefelau cymharol uchel o anfonlonrwydd ymhlith preswylwyr yn parhau i fodoli mewn perthynas â chynnal a chadw parciau ac ymddygiad gweithredwyr parciau. Rydym yn argymhell y rhoddir ystyriaeth bellach i sut y gellir adnabod digwyddiadau o arfer gwael a mynd i'r afael â hwy'n fwy effeithiol. Rydym hefyd yn argymhell, yn unol ag arfer da, y cynhelir adolygiad rheolaidd ar effeithiolrwydd y Tribiwnlys Eiddo Preswyl, i sicrhau ei fod yn parhau i ddiogelu hawliau pob parti'n deg ac yn effeithiol.
- **Costau Ynni** – Cost ynni (a nwy'n benodol) yw'r maes uchaf o wariant ar gyfer preswylwyr cartrefi mewn parciau. Ystyrir bod cartref mewn tldi tanwydd pan werir mwy na 10 y cant o incwm ar danwydd. Dywedodd 15 y cant o'r preswylwyr a ymatebod i'r arolwg eu bod yn ennill llai na £600 y mis a bod gwariant cyfartalog ar gostau tanwydd yn amrywio o £47 i £66 y mis, felly mae tystiolaeth o dldi tanwydd potensial ymhlith preswylwyr. Rydym yn argymhell y dylid rhoi ystyriaeth bellach i fentrau sy'n gostwng costau ynni a thldi tanwydd ar gyfer yr adran hon o'r gymuned.

Awduron yr Adroddiad: PACEC



Adroddiad yr Ymchwil Llawn: Mackin, D, Donnelly, G a Fothergill, S (2016) *Deall Economeg y Diwydiant Cartrefi mewn Parciau yng Nghymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad GSR 65/2016

Ar gael yn: <http://gov.wales/statistics-and-research/economics-park-home-industry/?lang=cy>

Mae'r farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yn farn yr ymchwilwyr ac nid Llywodraeth Cymru o angenrheidrwydd

I gael gwybodaeth bellach cysylltwch â:

Lucie Griffiths

Yr Is-Adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth

Y Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddol

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays

Caerdydd, CF10 3NQ

E-bost: Lucie.Griffiths@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg.

This document is also available in Welsh.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-4734-7617-2